# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Mawrth 2017

Amser: 14.00 - 16.42

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3914

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | John Howells, Llywodraeth Cymru<br>Shan Morgan, Llywodraeth Cymru<br>David Richards, Llywodraeth Cymru<br>Ian Williams, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Matthew Mortlock<br>Nick Selwyn<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc) |

| | |
|---|---|
| | Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod PDF (999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil McEvoy AC. Ni chafwyd dirprwy ar ei ran.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol a Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (6 Mawrth 2017)

### 2.2 Cyflogau Uwch-reolwyr: Adroddiad Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus

## 3 Sesiwn gychwynnol: Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

3.1 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn gychwynnol gyda Shan Morgan, yr Ysgrifennydd Parhaol newydd yn Llywodraeth Cymru.

3.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i roi sylw i'r heriau a fydd yn digwydd yn sgil digideiddio a bydd yn cyflwyno ei sylwadau i'r pwyllgor.

## 4 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Sesiwn dystiolaeth 12

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan John Howells, Cyfarwyddwr Tai, ac Ian Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr (Datblygu Sector), Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig a chafodd ei ymestyn i gwmpasu eitem 1 ar gyfer y cyfarfod ar 28 Mawrth 2017.

## 6 Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

7.2 Awgrymwyd gwneud ychydig o fân newidiadau a bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei hanfon drwy e-bost at yr Aelodau.

## 8 Blaenraglen Waith - Haf 2017

8.1 Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith ar gyfer yr haf a chytunodd arni.